# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Chwefror 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 48(v5)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar wasanaethau offthalmoleg yng Nghymru? EAQ(5)0116(HWS)

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Ymchwiliadau'r Pwyllgor

(30 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ei ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17

(60 munud)

**NDM6220** [Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar yr ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016-17, a [osodwyd] yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2016.

Nodyn: [Gosodwyd] ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ionawr 2017.

## 6 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6223** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da yn chwarae rhan hanfodol o ran cadw'r GIG yn gynaliadwy.

2. Yn nodi bod gofalwyr di-dâl yn gwneud cyfraniad hanfodol o ran sicrhau cynaliadwyedd gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac na chaiff ei werthfawrogi ac yn gresynu at y gostyngiad yn nifer y nosweithiau o ofal seibiant a ddarparwyd ers 2011.

3. Yn credu y gallai ysbytai cymuned chwarae rhan hanfodol o ran darparu gofal seibiant, a hwyluso'r broses bontio yn ôl i ofal iechyd cymunedol ar gyfer y rhai sydd wedi bod angen gofal mewn ysbyty.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wyrdroi'r arfer o gau ysbytai cymuned ac archwilio ffyrdd o adfer argaeledd gwelyau i'w defnyddio gan wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad gofalwyr di-dâl i'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn credu y dylai gofal seibiant fod yn hyblyg ac y gallai ddigwydd mewn amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys yn y cartref ac yn y gymuned ehangach.

Yn nodi bod ysbytai cymunedol yn un o nifer o leoliadau a all chwarae rhan yn darparu gofal seibiant a gofal amrywiol wrth i gyflyrau waethygu neu wella.

Yn croesawu:

a) ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer gofal seibiant er mwyn sicrhau bod y gofal hwnnw'n ymateb i anghenion unigolion mewn ffordd gyson ar draws Cymru;

b) y buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal ychwanegol a wnaed yn bosib drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol gwerth £60m yn 2017-18; ac

c) y gronfa newydd gwerth £40m a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2017-18 i ddatblygu canolfannau integredig iechyd a gofal cymdeithasol newydd ar draws Cymru.

'Cyllideb Derfynol 2017-2018 '

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

ac yn cydnabod rôl y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o ran lleihau'r galw diangen am ofal cymdeithasol.

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ynghylch gweithredu Adran 35 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, o ran diwallu anghenion seibiant gofalwyr.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6221** Nick Ramsay (Mynwy):

Taro'r Fargen Ddinesig - y camau nesaf i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Chwefror 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Ionawr 2017 i'w hateb ar 1 Chwefror 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am reoli fforestydd yng Nghymru? OAQ(5)0088(ERA) **TYNNWYD YN ÔL**

**2.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith gadael yr UE ar y diwydiant pysgota yng Nghymru? OAQ(5)0097(ERA)

**3.** Huw Irranca-Davies (Ogwr): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Cartrefi Clyd? OAQ(5)0102(ERA)

**4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella lles anifeiliaid ledled Cymru? OAQ(5)0087(ERA)

**5.** David Melding (Canol De Cymru): Pa bolisïau sydd ar waith i gynyddu bioamrywiaeth mewn amgylcheddau morol? OAQ(5)0090(ERA)

**6.** David J Rowlands (Dwyrain De Cymru): Pryd y bydd mynediad at ddyfroedd mewndirol Cymru yn ôl ar agenda Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0094(ERA)

**7.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am hawliau pori ar dir comin? OAQ(5)0099(ERA)

**8.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddatblygiad fferm wynt Mynydd y Gwair? OAQ(5)0096(ERA)

**9.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol? OAQ(5)0095(ERA)

**10.** Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am bwysigrwydd mannau gwyrdd a pharciau yng Nghymru? OAQ(5)0086(ERA)

**11.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷ n â gorsaf bŵer Aberddawan ers 1 Ionawr 2017? OAQ(5)0089(ERA)**W**

**12.** Rhianon Passmore (Islwyn): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon? OAQ(5)0100(ERA)

**13.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu cefn gwlad Cymru rhag effeithiau gor-ddatblygu? OAQ(5)0098(ERA)

**14.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fandaliaeth amgylcheddol? OAQ(5)0085(ERA)

**15.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am reoli coetiroedd yng Nghymru? OAQ(5)0093(ERA)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ariannu cynlluniau o dan y rhaglen 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' ar gyfer 2017/18? OAQ(5)0104(CC)**W**

**2.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): Faint ymlaen llaw y byddai'n rhesymol disgwyl i ddarparwr gofal plant a gefnogir gan Lywodraeth Cymru hysbysu rhieni sy'n gweithio o ddyddiad dechrau eu plant? OAQ(5)0107(CC)

**3.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynglŷ n â pharthau plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0100(CC)**W**

**4.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i wella cyfleoedd ar gyfer chwarae hygyrch ledled Cymru? OAQ(5)0096(CC)

**5.** Huw Irranca-Davies (Ogwr): Pa fesurau y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â thrais domestig yn ystod pencampwriaeth rygbi y Chwe Gwlad a digwyddiadau chwaraeon mawr eraill? OAQ(5)0102(CC)

**6.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i gefnogi'r gwasanaethau iechyd? OAQ(5)0099(CC)

**7.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer cryfhau cymunedau yng Nghymru? OAQ(5)0098(CC)

**8.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rymuso cymunedau lleol? OAQ(5)0095(CC)

**9.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i brif-ffrydio cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus? OAQ(5)0106(CC)

**10.** Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid yng Nghaerdydd? OAQ(5)0101(CC) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.***

**11.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo gwaith undebau credyd yn y canolbarth? OAQ(5)0105(CC)

**12.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr ymchwiliad i afreoleidd-dra ariannu yn NSA Afan? OAQ(5)0097(CC)

**13.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau gofal plant yng ngorllewin Cymru? OAQ(5)0094(CC)

**14.** Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth awdurdodau lleol i'r trydydd sector? OAQ(5)0103(CC)